**RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Rhithwir o’r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ddydd Llun, 21 Mawrth 2022**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm dydd Iau, 24 Mawrth, 2022. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniadau i’r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm dydd Iau, 31 Mawrth, 2022. Daw’r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i’w galw i mewn) ddydd Gwener, 1 Ebrill, 2022.

**Yn bresennol**: Y Cynghorwyr R Dew, Llinos Medi Huws (Cadeirydd), R. Meirion Jones, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Alun W Mummery, Carwyn Jones a Robin Williams

**Hefyd yn bresennol**: Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Dylan Rees, Dafydd Roberts

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorydd R G Parry OBE FRAgS

(10:00 yb - 11:15 yb)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 Cofnodion**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 3 Mawrth, 2022 fel rhai cywir.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Amherthnasol** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Amherthnasol** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod Ebill i Dachwedd 2022 fel y’i cyflwynwyd.** |

| | |
|---|---|
| | |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cryfhau trefniadau atebolrwydd a blaen gynllunio** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Monitro'r Cerdyn Sgorio – Chwarter 3, 2021/22**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd derbyn Adroddiad Monitro'r Cerdyn Sgorio ar gyfer Chwarter 3 2021/22, nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau yn y dyfodol a derbyn y mesurau lliniaru a amlinellir yn yr adroddiad.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Adnabod meysydd sy'n tanberfformio yn y Cyngor** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai (CRT)**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai 2022-52.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Nodi blaenoriaethau a gofynion buddsoddi mewn perthynas â stoc dai'r Cyngor** |

| | |
|---|---|
| | |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 Adroddiad Cynnydd Rhaglen Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a derbyn sicrwydd bod y cynnydd parhaus sy'n cael ei gyflawni gan y Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhesymol ac yn amserol.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Monitro perfformiad a chynnydd y Gwasanaethau Cymdeithasol** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 Strategaeth Rhaglen Grant Cymorth Tai 2022-26**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br><br>• **Cymeradwyo'r Strategaeth Rhaglen Grant Cymorth Tai 2022-26 a'r Cynllun Cyflawni**<br>• **Cytuno i'r Cynllun Gwariant arfaethedig yn unol â Chanllawiau a gofyniad GCT Llywodraeth Cymru (a gynhwysir yn Atodiad 3 yn y Cynllun Cyflawni)**<br>• **Cymeradwyo'r Cynllun Gwaith** |

| | |
|---|---|
| | Pontio Ailgartrefu Cyflym, Ebrill 2022 – Mawrth 2027. |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru a gofynion statudol** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

## EITEM GYFRINACHOL

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **10 Ymateb i'r Her Tai Lleol – Datblygiadau tai dros 10 uned – Stad Parc y Coed, Llangefni a Bryn Glas, Brynsiencyn**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br>• **Dirprwyo pwerau i'r Gwasanaeth Tai i symud ymlaen i gytuno ar delerau ar gyfer prynu 12 cartref newydd ar stad Parc y Coed, Llangefni fydd ar gael i'w rhentu neu eu prynu trwy'r Cynllun Rhannu Ecwiti fel tai fforddiadwy gan y Gwasanaeth Tai mewn ymateb i'r her tai lleol.**<br>• **Ar yr amod bod y datblygwr yn derbyn caniatâd cynllunio llawn ar gyfer y datblygiad arfaethedig, dirprwyo pwerau i'r Gwasanaeth Tai i symud ymlaen i gytuno ar delerau ar gyfer prynu 12 cartref newydd ar dir ger Bryn Glas, Brynsiencyn fydd ar gael i'w rhentu neu eu prynu trwy'r Cynllun Rhannu Ecwiti fel tai fforddiadwy gan y Gwasanaeth Tai mewn ymateb i'r Her Tai Lleol.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Hwyluso'r gwaith o ddatblygu tai** |

| | |
|---|---|
| | **newydd mewn ymateb i'r her tai lleol** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Y Cynghorwyr Ieuan Williams a Robin Williams** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |